Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

## Ystadegau swyddogol

# Staff mewn sefydliadau addysg uwch: Awst 2024 i Orffennaf 2025


| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | Sta/Medr/03/2026 |
| **Dyddiad:** | 24/02/2026 |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol |
| **E-bost:** | YstadegauAU@medr.cymru |


| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | Ystadegau ar y staff a gyflogir mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru |
| **Thema:** | Addysg Uwch |
| **Ffynhonnell:** | Cofnod Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) |


Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys

Prif bwyntiau ... 2
Cyfansymiau staff rhwng 2016/17 a 2024/25 ... 3
Staff yn ôl modd contract ... 5
Staff yn ôl math o gontract ... 6
Staff yn ôl rhyw ... 7
Staff yn ôl ethnigrwydd ... 10
Staff yn ôl anabledd ... 12
Staff yn ôl oedran ... 14
Data ... 16
Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg ... 16
    Ffynhonnell a chwmpas y data ... 16
    Diffiniadau ... 16
    Talgrynnu ... 18
    Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ... 18
Ystadegau cysylltiedig ... 18
Gwybodaeth gyswllt ... 19

## Prif bwyntiau

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y staff a oedd yn cael eu cyflogi mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25, fel y'i casglwyd yng Nghofnod Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).


Cyfrifir niferoedd staff gan ddefnyddio'r hyn sy'n gyfwerth â pherson llawn ar gyfer staff ar 1 Rhagfyr yn y flwyddyn adrodd, er enghraifft 1 Rhagfyr 2024 ar gyfer 2024/25. Ni chaiff staff ar gontractau annodweddiadol eu cynnwys yn yr adroddiad hwn am nad ydynt yn gymaradwy â staff ar fathau eraill o gontract. Yn 2024/25 roedd 1,170 o staff yn cael eu cyflogi gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ar gontractau annodweddiadol. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn yr adran diffiniadau.

- Roedd 21,995 o staff yn cael eu cyflogi mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2024/25. Mae hyn yn cynrychioli lleihad o 2.8% o gymharu â'r 22,635 o staff a gofnodwyd yn 2023/24.
- 2024/25 oedd y flwyddyn academaidd gyntaf ers 2020/21 pan welwyd lleihad yng nghyfanswm nifer y staff.
- Yn 2024/25, roedd staff amser llawn yn cyfrif am 67.3% o'r holl staff (14,815), ac roedd staff rhan-amser yn cyfrif am 32.7% (7,180) o'r holl staff.
- Yn 2024/25, roedd staff academaidd a staff anacademaidd yn cyfrif am 50% yr un o gyfanswm y staff. Roedd 11,085 o staff ar gontractau academaidd a 10,910 o staff ar gontractau anacademaidd.
- Yn 2024/25, roedd 56% o staff yn fenywaidd (12,325) a 44% (9,610) yn wrywaidd.
- Yn 2024/25, o blith y staff yr oedd eu cefndir ethnig yn hysbys, roedd 86.7% o gefndir Gwyn, roedd 7.4% o gefndir Asiaidd, roedd 2.1% o gefndir Du, roedd 1.9% o gefndir Cymysg ac roedd 2.0% o gefndir Arall.
- Yn 2024/25, cofnodwyd bod gan 9.3% o staff o leiaf un anabledd hysbys.
- Y grŵp oedran â'r nifer mwyaf o staff ynddo yn 2024/25 oedd y categori 36 i 45 oed, a oedd yn cyfrif am 28.3% o'r holl staff. Y grŵp oedran â'r nifer lleiaf ynddo oedd y categori 66 oed a hŷn, a oedd yn cyfrif am 2.9% o'r holl staff.

## Cyfansymiau staff rhwng 2016/17 a 2024/25

**Bu lleihad yng nghyfanswm nifer y staff am y tro cyntaf ers blwyddyn academaidd 2020/21, yn dilyn sawl blwyddyn o gynnydd graddol**

Siart 1: Cyfanswm y staff mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, 2016/17 i 2024/25 (heb gynnwys contractau annodweddiadol)




Data yn Nhabl 1 ar y daenlen atodol.

Yn 2024/25, cofnodwyd bod 21,995 o staff yn gweithio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae'r nifer hwn yn cynrychioli lleihad o 2.8% (640 yn llai o staff) o gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol, pan gofnodwyd 22,635 o staff.

2024/25 oedd y flwyddyn academaidd gyntaf ers 2020/21, a oedd yn ystod pandemig Covid-19, pan welwyd lleihad yn nifer y staff. Rhwng 2020/21 a 2023/24, bu cynnydd graddol yn niferoedd y staff bob blwyddyn.

## Gwnaeth niferoedd y staff leihau fymryn ym mhob sefydliad addysg uwch yng Nghymru, bron, yn 2024/25

Tabl 1: Staff yn ôl sefydliad, 2016/17 a 2024/25 (heb gynnwys contractau annodweddiadol)

| Sefydliad | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | 2,210 | 1,980 | 1,935 | 1,870 | 1,830 | 1,800 | 1,860 | 1,780 | 1,770 |
| Prifysgol Bangor | 2,205 | 2,060 | 2,050 | 2,010 | 1,980 | 1,985 | 2,090 | 1,930 | 1,920 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 1,535 | 1,380 | 1,395 | 1,470 | 1,500 | 1,625 | 1,805 | 1,895 | 1,865 |
| Prifysgol Caerdydd | 6,855 | 7,070 | 6,805 | 6,900 | 6,915 | 6,935 | 7,075 | 7,760 | 7,510 |
| Prifysgol Abertawe | 3,150 | 3,525 | 3,820 | 3,820 | 3,660 | 3,700 | 3,860 | 3,825 | 3,685 |
| Prifysgol De Cymru | 2,915 | 2,775 | 2,780 | 2,740 | 2,665 | 2,725 | 2,930 | 3,055 | 2,855 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 1,710 | 1,615 | 1,610 | 1,435 | 1,340 | 1,470 | 1,660 | 1,805 | 1,765 |
| Prifysgol Wrecsam | 515 | 470 | 480 | 465 | 495 | 500 | 535 | 585 | 630 |
| **Cyfanswm** | **21,095** | **20,870** | **20,875** | **20,720** | **20,385** | **20,740** | **21,815** | **22,635** | **21,995** |

Data yn Nhabl 1 ar y daenlen atodol. Mae'r ffigurau ar gyfer Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cynnwys Prifysgol Cymru.[1]

Gwnaeth niferoedd y staff yn y rhan fwyaf o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru leihau yn 2024/25: roedd gan y sector 640 yn llai o staff na 2023/24. Yr eithriad oedd Prifysgol Wrecsam, lle y bu cynnydd o 8.4% yn niferoedd ei staff (50 yn fwy o staff).

Ym Mhrifysgol De Cymru y gwelwyd y lleihad canrannol mwyaf yn niferoedd ei staff o blith yr holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, lle roedd 6.6% yn llai o staff yn cael eu cyflogi yn 2024/25 o gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol.


Er gwaethaf y lleihad yn niferoedd y staff yn y rhan fwyaf o sefydliadau, parhaodd Prifysgol Caerdydd i gyfrif am y gyfran fwyaf o staff mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2024/25 (34.1%), a Phrifysgol Abertawe oedd â'r gyfran fwyaf ond un (16.8%). Roedd Prifysgol Wrecsam yn cyfrif am 2.9% o'r holl staff yn 2024/25, sef y gyfran leiaf.

[1] Gweler yr adran 'Ffynhonnell a chwmpas y data' am ragor o wybodaeth

## Staff yn ôl modd contract

**Roedd y lleihad yng nghyfanswm y staff yn 2024/25 wedi'i rannu'n gymharol gyfartal rhwng contractau amser llawn a chontractau rhan-amser**

Siart 2: Staff yn ôl modd contract, 2016/17 i 2024/25, pob darparwr (heb gynnwys contractau annodweddiadol)




Data yn Nhabl 2 ar y daenlen atodol.

Roedd cyfanswm o 14,815 o staff ar gontractau amser llawn a 7,180 o staff ar gontractau rhan-amser mewn prifysgolion yng Nghymru yn 2024/25. Staff amser llawn oedd mwyafrif y staff (67.3%) a staff rhan-amser oedd y gweddill (32.7%).


Bu lleihad yn niferoedd y staff ar gontractau amser llawn a rhan-amser o gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol, sef 2023/24. Gwelwyd lleihad o 2.7% yn niferoedd y staff amser llawn, a lleihad o 3.2% yn niferoedd y staff rhan-amser.

Mae nifer y staff ar gontractau rhan-amser wedi aros yn gymharol gyson ers 2016/17, pan oedd 7,450 o staff rhan-amser. Bu lleihad graddol yn y nifer hwn rhwng 2016/17 a 2020/21, cyn iddo ddychwelyd i lefelau tebyg i 2016/17 erbyn 2023/24. Yn y cyfamser, arhosodd nifer y staff ar gontractau amser llawn yn gyson ar tua 14,000 rhwng 2016/17 a 2021/22, cyn cynyddu a sefydlogi ar tua 15,000 bob blwyddyn wedi hynny.

## Staff yn ôl math o gontract

**Roedd nifer y staff ar gontractau academaidd yn fwy na nifer y staff ar gontractau anacademaidd am yr ail flwyddyn yn olynol**

Siart 3: Staff yn ôl math o gontract, 2016/17 i 2024/25, pob darparwr (heb gynnwys contractau annodweddiadol)




Data yn Nhabl 2 ar y daenlen atodol.

Yn hanesyddol, mae mwy o staff wedi cael eu cyflogi ar gontractau anacademaidd na chontractau academaidd yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Fodd bynnag, yn 2023/24, bu gwrthdroad yn y duedd hon a chynyddodd nifer y staff ar gontractau academaidd yn uwch na nifer y staff ar gontractau anacademaidd. Arhosodd nifer y staff ar gontractau academaidd yn uwch na nifer y staff ar gontractau anacademaidd yn 2024/25.

Roedd y lleihad a welwyd yn 2024/25 wedi'i ddosbarthu'n gymharol gyfartal rhwng contractau academaidd ac anacademaidd, gan fod nifer y contractau academaidd wedi lleihau 2.3% a nifer y contractau anacademaidd wedi lleihau 3.4%.


O blith y staff ar gontractau anacademaidd yn 2024/25, roedd 9% yn rheolwyr, yn gyfarwyddwyr ac yn uwch-swyddogion, roedd 46% yn gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol a phroffesiynol cysylltiedig, ac roedd 44% yn gweithio mewn galwedigaethau clercol a gwaith llaw. Daw'r diffiniadau o'r grwpiau galwedigaethau hyn o naw Prif Grŵp Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 2020.

## Staff yn ôl rhyw

Yn yr adran hon, nid yw'r staff na wnaethant nodi eu rhyw na'r staff a ddewisodd y categori 'Arall' wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad nac wrth gyfrifo'r canrannau. Nifer bach iawn o gyfanswm yr ymatebion oedd y grwpiau hyn, gan fod y rhai na wnaethant ateb y cwestiwn yn cyfrif am 0.1% (20) o'r ymatebwyr, a'r rhai a ddewisodd 'Arall' yn cyfrif am 0.2% (45) o'r ymatebwyr.

**Parhaodd staff benywaidd yn y sector i fod yn fwy niferus na staff gwrywaidd yn 2024/25, sy'n adlewyrchu tuedd gyson dros y blynyddoedd diwethaf**

Siart 4: Staff yn ôl rhyw, 2016/17 i 2024/25 (heb gynnwys contractau annodweddiadol)





Data yn Nhabl 3a ar y daenlen atodol.

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25, roedd 56% o staff sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn fenywaidd (12,325) ac roedd 44% (9,610) yn wrywaidd. Mae hyn yn parhau â'r duedd sydd wedi cael ei gweld yn y sector addysg uwch yng Nghymru ers 2016/17 (ac am flynyddoedd cyn hynny), lle mae cyfran y staff benywaidd wedi bod yn fwy na chyfran y staff gwrywaidd.

Roedd y lleihad yng nghyfanswm y staff yn 2024/25 wedi'i ddosbarthu'n gymharol gyfartal rhwng staff gwrywaidd a benywaidd. Bu lleihad o 3.4% yn nifer y staff gwrywaidd a lleihad o 2.5% yn nifer y staff benywaidd yn y sector.

**Mae'r gwahaniaeth rhwng nifer y staff gwrywaidd a nifer y staff benywaidd a gyflogir ar gontractau academaidd wedi lleihau**

Siart 5: Staff ar gontractau academaidd yn ôl rhyw, 2016/17 i 2024/25 (heb gynnwys contractau annodweddiadol)





Data yn Nhabl 3a ar y daenlen atodol.

Mae cyfran y staff academaidd sy'n fenywaidd wedi cynyddu'n raddol yn ystod y cyfnod a welir yn Siart 5. Yn 2016/16, roedd 46.5% o'r staff academaidd yn fenywaidd ac, erbyn 2024/25, roedd y ganran hon wedi cynyddu i 49.7%.

**Mae'r gwahaniaeth rhwng nifer y staff gwrywaidd a nifer y staff benywaidd a gyflogir ar gontractau anacademaidd wedi aros yn gyson am sawl blwyddyn**

Siart 6: Staff ar gontractau anacademaidd yn ôl rhyw, 2016/17 i 2024/25 (heb gynnwys contractau annodweddiadol)




Data yn Nhabl 3a ar y daenlen atodol.


Ar gyfer contractau anacademaidd, mae'r tueddiadau o ran staff gwrywaidd a staff benywaidd wedi aros yn weddol sefydlog rhwng blynyddoedd academaidd 2016/17 a 2024/25. Staff benywaidd sydd wedi cyfrif am fwyafrif y contractau anacademaidd drwy gydol y blynyddoedd hyn, wrth i'r lefelau amrywio rhwng 62% a 63%. Yn y cyfamser, mae staff gwrywaidd wedi cyfrif am rhwng 37% a 38% o'r contractau anacademaidd yn gyson.

## Staff yn ôl ethnigrwydd

Yn yr adran hon, nid yw'r staff nad yw eu cefndir ethnig yn hysbys wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad nac wrth gyfrifo'r canrannau. Y gyfran o gyfanswm y staff nad oedd eu cefndir ethnig yn hysbys yn nata 2024/25 oedd 7.4%.

**Staff o gefndir ethnig Asiaidd yw'r grŵp ethnig lleiafrifol mwyaf o hyd yn 2024/25**

Siart 7: Staff o gefndir ethnig lleiafrifol (Asiaidd, Du, Cymysg ac Arall), 2016/17 i 2024/25 (heb gynnwys contractau annodweddiadol)




Data yn Nhabl 4b ar y daenlen atodol. Mae data pellach ar staff Gwyn i'w gweld yn y tabl hwn hefyd.


Mae niferoedd y staff o bob cefndir ethnig lleiafrifol wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2016/17 a 2024/25. Gwelwyd cynnydd mwy serth fyth yng nghyfran y staff o gefndiroedd ethnig lleiafrifol o 2021/22 ymlaen, a hynny'n bennaf ymhlith staff o gefndiroedd Du ac Asiaidd.

Staff o gefndir ethnig Asiaidd yw mwyafrif y staff o gefndir ethnig lleiafrifol o hyd: yn 2024/25, roedd 7.4% o'r holl staff yn dod o gefndir Asiaidd.

Yn nifer y staff o gefndir ethnig Du y gwelwyd y cynnydd canrannol mwyaf ers 2016/17, gan iddo fwy na dyblu o 150 yn 2016/17 i 420 yn 2024/25. Gwelwyd cynnydd canrannol uchel yn nifer y staff o gefndiroedd ethnig Cymysg ac Asiaidd hefyd rhwng y blynyddoedd hyn, sef cynnydd o 99.5% yn nifer y staff Cymysg a chynnydd o 93.7% yn nifer y staff Asiaidd. Cynyddodd nifer y staff o gefndir ethnig Arall 9.7% rhwng y blynyddoedd hyn.

**Mae cyfran y staff academaidd o gefndir ethnig lleiafrifol wedi bod yn cynyddu ychydig dros ddwywaith yn gyflymach na chyfran y staff anacademaidd o'r grwpiau hyn ers 2021/22**

Siart 8: Canran y staff o gefndiroedd ethnig lleiafrifol (wedi'u cyfuno) yn ôl math o gontract, 2016/17 i 2024/25 (heb gynnwys contractau annodweddiadol)




Data yn Nhabl 4b ar y daenlen atodol. Mae dadansoddiadau pellach ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol unigol/staff Gwyn i'w gweld yn Nhablau 4a a 4b.


Yn Siart 8, y staff yn y categorïau ethnig lleiafrifol a welir yn Siart 7 (Du, Asiaidd, Cymysg ac Arall) wedi'u cyfuno yw'r staff sydd wedi'u cynnwys fel staff o gefndir ethnig lleiafrifol.

Yn 2024/25, roedd 19.6% o'r staff academaidd yn dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, a 7.5% oedd y ganran hon ar gyfer staff anacademaidd. Rhwng 2021/22 a 2024/25, cynyddodd cyfran y staff academaidd a oedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ar gyfradd a oedd ychydig dros ddwywaith yn fwy na'r gyfradd ar gyfer staff academaidd. Bu cynnydd o 4.8 pwynt canran yng nghyfran y staff academaidd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, a chynnydd o 2.3 pwynt canran yng nghyfran y staff anacademaidd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol rhwng y blynyddoedd hyn.

## Staff yn ôl anabledd

**Dywed bron un o bob 10 aelod o staff sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru (9.3%) fod ganddynt o leiaf un anabledd hysbys**

Siart 9: Canran y staff y gwyddys eu bod yn anabl, 2016/17 i 2024/25 (heb gynnwys contractau annodweddiadol)





Data yn Nhabl 5b ar y daenlen atodol.

Mae cyfran y staff mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sydd ag o leiaf un anabledd hysbys wedi cynyddu 4 pwynt canran yn raddol dros amser, o 5.3% o'r holl staff yn 2016/17 i 9.3% yn 2024/25 (neu o 1,110 i 2,045 o staff).

**Mae nifer y staff sydd ag o leiaf un anabledd yn cynyddu ar gyfer contractau academaidd a chontractau anacademaidd**

Siart 10: Canrannau'r staff ag o leiaf un anabledd hysbys yn ôl math o gontract, 2016/17 i 2024/25 (heb gynnwys contractau annodweddiadol)




Data yn Nhabl 5b ar y daenlen atodol.


Mae cyfrannau'r staff sydd ag o leiaf un anabledd hysbys ac sydd ar gontractau academaidd a chontractau anacademaidd wedi cynyddu'n raddol rhwng 2016/17 a 2024/25.

Roedd staff ag o leiaf un anabledd hysbys yn cyfrif am 4.2% o'r staff academaidd yn 2016/17 ond, erbyn 2024/25, roedd y gyfran hon wedi dyblu bron, gan gynyddu i 7.9%. Yn yr un modd, ar gyfer staff anacademaidd, cyfran y staff ag o leiaf un anabledd hysbys oedd 6.2% yn 2016/17, a thyfodd y gyfran honno i 10.7% erbyn 2024/25.

## Staff yn ôl oedran

**Gwnaeth niferoedd y staff ym mhob categori oedran, bron, leihau fymryn yn 2024/25**

Siart 11: Staff yn ôl grŵp oedran, 2020/21 i 2024/25 (heb gynnwys contractau annodweddiadol)




Data yn Nhabl 6 ar y daenlen atodol.


Bu lleihad bach iawn yn nifer y staff ym mhob grŵp oedran, bron, yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25. Yn y categorïau oedran 26 i 35 oed, 56 i 65 oed a 66 oed a hŷn y gwelwyd y lleihad cymharol mwyaf rhwng 2023/24 a 2024/25; bu lleihad o 5.0% yn y ddau gategori cyntaf, a lleihad o 5.1% yn y trydydd. Yn agos wedyn roedd y categori 25 oed ac iau, lle y gwelwyd lleihad o 4.6%.

Y grŵp 46 i 55 oed oedd yr unig gategori lle y gwelwyd cynnydd: bu cynnydd o 0.3% yn ei niferoedd rhwng 2023/24 a 2024/25.

Y categori 36 i 45 oed oedd y grŵp oedran mwyaf o hyd yn 2024/25, gan gyfrif am 28.3% o gyfanswm poblogaeth staff sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Yn 2024/25, y grwpiau oedran lleiaf oedd y categori 25 oed ac iau, a oedd yn cyfrif am 4.9% o gyfanswm y staff, a'r categori 66 oed a hŷn, a oedd yn cyfrif am 2.9% o gyfanswm y staff.

**Mae dosbarthiad oedran y staff academaidd ac anacademaidd yn debyg ar y cyfan, ac eithrio ar gyfer y rhai o dan 25 oed a thros 66 oed.**

Siart 12: Staff yng Nghymru yn ôl math o gontract a grŵp oedran, 2024/25 (heb gynnwys contractau annodweddiadol)




Data yn Nhabl 6 ar y daenlen atodol. Mae data hanesyddol pellach i'w gweld yn y tabl hwn hefyd.

Mae Siart 12 yn dangos data ar gyfer 2024/25 yn unig er mwyn ei gwneud yn fwy darllenadwy gan fod y dosbarthiad wedi aros yn sefydlog ar y cyfan bob blwyddyn rhwng 2020/21 a 2024/25, gydag amrywiadau bach yn unig o un flwyddyn i'r llall. Mae data ar gyfer blynyddoedd cynharach i'w gweld yn Nhabl 6 y llyfr gwaith cysylltiedig.

Roedd dosbarthiad oedran y staff academaidd ac anacademaidd yn debyg ar y cyfan yn 2024/25. Dim ond ym mhegynau eithaf y grwpiau oedran y gwelwyd gwahaniaethau sylweddol: roedd y staff o dan 25 oed yn cyfrif am 6.7% o'r contractau anacademaidd o gymharu â 3.2% o'r contractau academaidd yn 2024/25. Roedd y gwrthwyneb yn wir yn achos y staff 66 oed a hŷn, a oedd yn cyfrif am 3.9% o'r holl staff ar gontractau academaidd ac 1.8% o'r holl staff ar gontractau anacademaidd yn 2024/25.

Roedd y grŵp oedran 26 i 35 oed yn cynnwys 21.1% o'r staff academaidd a 22.3% o'r staff anacademaidd. Yn y grŵp 36 i 45 oed roedd y cyfrannau mwyaf, sef 28.9% ar gontractau academaidd a 27.8% ar gontractau anacademaidd. Roedd staff rhwng 46 a 55 oed yn cyfrif am tua chwarter y naill grŵp a'r llall (25.9% o'r staff academaidd a 26.2% o'r staff anacademaidd), ac roedd y grŵp 56 i 65 oed yn cyfrif am 17.0% o'r staff academaidd a 15.1% o'r staff anacademaidd.

# Data

Mae'r data ar gyfer y siartiau yn yr adroddiad hwn i'w gweld yn y daenlen gysylltiedig yn medr.cymru.

Mae'r data, gan gynnwys dadansoddiadau manylach megis gwybodaeth ar lefel darparwr ar gyfer darparwyr addysg uwch yng Nghymru, i'w gweld yn StatsCymru:

- Staff addysg uwch yng Nghymru yn ôl nodweddion personol a dosbarthiad galwedigaethol safonol;
- Staff addysg uwch yng Nghymru yn ôl canolfan gostau, pa un a ydynt wedi'u contractio i addysgu, a chenedligrwydd.

Mae data ychwanegol i'w gweld ar wefan Data Agored HESA.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

## Ffynhonnell a chwmpas y data

Cofnod Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yw ffynhonnell y data yn y cyhoeddiad hwn.

Mae Cofnod Staff HESA yn rhoi data ar nodweddion y staff a gyflogir ar gontract cyflogaeth mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU sy'n cyflwyno adroddiadau. I Gymru, mae hyn yn cynnwys pob sefydliad addysg uwch a ariennir yn gyhoeddus.

Mae'r ffigurau ar gyfer Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cynnwys Prifysgol Cymru. Ym mis Awst 2017, cymeradwyodd Prifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant weithred uno.

Y boblogaeth a ddefnyddir yw poblogaeth contractau staff HESA, sy'n cynnwys aelodau o staff a oedd ar gontract gweithredol ar 1 Rhagfyr yn y flwyddyn academaidd berthnasol, heb gynnwys staff ar gontractau annodweddiadol. Cyfrifir y staff ar sail yr hyn sy'n gyfwerth â pherson llawn, sy'n golygu mai dim ond unwaith y caiff pob aelod o staff ei gyfrif, hyd yn oed os oes ganddo fwy nag un contract. Gweler y diffiniad o'r term cyfwerth â pherson llawn am ragor o fanylion.

## Diffiniadau

### Blwyddyn academaidd

Bydd blwyddyn academaidd yn rhedeg o 1 Awst tan 31 Gorffennaf, felly mae 2024/25 yn golygu o 1 Awst 2024 tan 31 Gorffennaf 2025.

### Oedran

Oedran ar 31 Awst yn y flwyddyn adrodd, e.e. 31 Awst 2024 ar gyfer 2024/25.

### Staff annodweddiadol

Ni chaiff staff ar gontractau annodweddiadol eu cynnwys yn y ffigurau. Ystyr staff annodweddiadol yw'r staff hynny y mae eu contractau'n cynnwys trefniadau gweithio nad ydynt yn barhaol, cydberthnasau cyflogaeth cymhleth a/neu waith heb oruchwyliaeth y darparwr gwaith arferol.

### Math o gontract

Diffinnir staff ar **gontract academaidd** fel staff sydd â chontract ar gyfer cynllunio, cyfarwyddo a chynnal gweithgareddau addysgu ac ymchwil academaidd o fewn sefydliadau addysg uwch. Ymhlith yr enghreifftiau o gontractau o'r fath mae contractau is-gangellorion, ymarferwyr meddygol, deintyddion, milfeddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n ymgymryd â gweithgareddau darlithio neu ymchwil.

Diffinnir staff ar **gontract anacademaidd** fel aelodau o staff nad oes ganddynt gontract academaidd, gan gynnwys rheolwyr, gweithwyr anacademaidd proffesiynol, gweithwyr lles myfyrwyr, ysgrifenyddion, gofalwyr a glanhawyr.

### Anabledd

Caiff gwybodaeth am anabledd ei chasglu ar sail hunanasesiadau aelodau o staff, ac nid oes rhaid i staff roi gwybod am unrhyw anableddau sydd ganddynt.

### Ethnigrwydd

Caiff gwybodaeth am ethnigrwydd ei chasglu ar sail hunanasesiadau aelodau o staff, ac nid oes rhaid i staff roi gwybod beth yw eu hethnigrwydd.

### Cyfwerth â pherson llawn

Gall unigolion feddu ar fwy nag un contract â darparwr a gall pob contract gynnwys mwy nag un gweithgaredd. Mewn dadansoddiadau, mae cyfansymiau staff wedi'u rhannu rhwng y gweithgareddau yn gymesur â'r hyn sy'n gyfwerth â pherson llawn a ddatganwyd ar gyfer pob gweithgaredd. Mae hyn yn arwain at gyfansymiau cyfwerth â pherson llawn (CPLl). Caiff cyfansymiau staff CPLl eu cyfrifo ar sail y gweithgareddau contract a oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr yn y cyfnod adrodd.
Er enghraifft, pe bai gan aelod o staff gontract academaidd i weithio 3 diwrnod yr wythnos a chontract anacademaidd i weithio 1 diwrnod yr wythnos, byddai'n cyfrif fel 0.75 aelod o staff ar gontract academaidd a 0.25 aelod o staff ar gontract anacademaidd.

### Rhyw

Mae hyn yn cyfeirio at ryw'r aelod o staff, yn hytrach na'r rhywedd y mae'n uniaethu ag ef.

O 2022/23 ymlaen, cafodd canllawiau ychwanegol i ddarparwyr eu cynnwys sy'n dweud y dylai rhyw fod yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi'i gofnodi yn nogfennau cyfreithiol unigolyn, megis ei dystysgrif geni, ei Dystysgrif Cydnabod Rhywedd, neu ei basbort. Dim ond ar gyfer trydydd rhyw a gydnabyddir yn gyfreithiol gan wlad arall y dylid defnyddio'r categori ‘Arall’. Cafodd opsiynau i gofnodi ‘Wedi gwrthod rhoi'r wybodaeth’ neu ‘Ddim ar gael’ ar gyfer staff eu cyflwyno yn 2022/23 hefyd.

Cyn 2022/23, roedd y maes rhyw yn seiliedig ar ddewis ryw unigolyn, ac roedd y categori 'Arall' yn cynnwys pobl y mae eu rhyw yn cyd-fynd â thermau fel rhyngryw, androgyn, rhyngryweddol, deuryweddol, rhyweddhylifol, amlryweddol a rhywedd cwiar.

### Talgrynnu

Caiff ffigurau eu talgrynnu i'r 5 agosaf. Caiff cyfansymiau eu cyfrifo ar sail ffigurau heb eu talgrynnu ac yna eu talgrynnu i'r 5 agosaf, felly mae'n bosibl na fyddant yn hafal i swm y rhannau cyfansoddol.

Caiff canrannau eu cyfrifo gan ddefnyddio'r ffigurau heb eu talgrynnu. Gall hyn olygu na fydd y canrannau'n cyfateb i'r hyn a fyddai'n cael ei gyfrifo gan ddefnyddio ffigurau wedi'u talgrynnu.

### Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein hymarfer ystadegol ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau. Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau yn gosod y safonau o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai pawb sy'n cynhyrchu ystadegau swyddogol lynu wrthynt.

Caiff ein holl ystadegau eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau er mwyn gwella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Nodir y rhain yn y Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau a gyhoeddwyd gan Medr.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau disgwyliedig mewn perthynas â dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y ffyrdd canlynol.

#### Dibynadwyedd

Mae'r ystadegau hyn wedi cael eu cyhoeddi yn unol â Datganiad Cydymffurfio Medr a'i bolisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

#### Ansawdd

Ffynhonnell y data yw Cofnod Staff HESA, sy'n casglu data gan ddarparwyr addysg uwch ledled y DU.

Pan gaiff y data eu cyflwyno, cânt eu gwirio yn erbyn amrywiol reolau ansawdd a chaiff gwiriadau ansawdd pellach eu cynnal gan ddadansoddwyr yn HESA a Medr.

#### Gwerth

Mae'r ystadegau hyn yn rhoi gwybodaeth am y staff sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, gan ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddod o hyd i wybodaeth am staff darparwyr yng Nghymru yn benodol.

## Ystadegau cysylltiedig

Mae dolenni i gyhoeddiadau blaenorol yn y gyfres hon i'w gweld yn llyw.cymru.

Mae gwybodaeth am allu staff mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i chynnwys yng nghyhoeddiad Y Gymraeg mewn Addysg Uwch Medr. Caiff data o flwyddyn academaidd 2024/25 eu cyhoeddi yn ystod haf 2026.

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn cyhoeddi ystadegau ar staff yn y sectorau canlynol:

- Sector ysgolion a gynhelir
- Sector addysg bellach
- Sector addysg oedolion
- Sector ieuenctid cymwys
- Sector annibynnol

Mae'r rhain i'w gweld ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg.

## Gwybodaeth gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir anfon adborth, cwestiynau a cheisiadau am ddata pellach drwy e-bost i: YstadegauAU@medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**